CYNLLUN RHEOLI
DRAENIO A
DŴR GWASTRAFF

# Dŵr Cymru

## Sut a ble rydym ni eisiau gweithio gyda chi



MEWN PARTNERIAETH Â

rps ATKINS Member of the SNC-Lavalin Group wsp

Mae'r Cynllun Rheoli Draenio a Gwastraff Dŵr (DWMP) yn weledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol ansawdd dŵr amgylcheddol a'r gwaith o reoli draenio a dŵr gwastraff. Mae'n gynllun cydweithredol, hirdymor i sicrhau'r canlyniad gorau i'r amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Trwy ein gwaith hyd yma rydym wedi nodi meysydd blaenoriaeth lle gallwn gydweithio i ddechrau mynd i'r afael â risgiau yn y dyfodol ac mae'r ddogfen hon yn amlygu'r meysydd allweddol hynny.

Ein nod yn awr yw cyfleu'r meysydd lle mae angen i ni gydweithio â'n rhanddeiliaid i'n galluogi i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

# Gweithio gyda'n gilydd – Ein nod

**Mae angen i ni weithio gydag eraill ar draws ein hardal weithredu gyfan i gyflawni ein gweledigaeth drwy DWMP a helpu ein rhanddeiliaid i gyflawni eu nodau o ran rheoli llifogydd ac ansawdd dŵr.**

Rydym wedi trafod gyda'n rhanddeiliaid sut y gallwn gydweithio i sicrhau dull gwella parhaus i'n galluogi i ddatblygu system y gellir ei chyflwyno ledled Cymru a'r gororau.

Ein nod yw creu cytundeb gweithio ar y cyd trwy sefydlu byrddau rhaglenni a phrosiectau i lunio cyfres o opsiynau i'w cynnwys yn y DWMP a chynlluniau perthnasol eraill, a chytuno ar gynlluniau adnoddau i ddarparu atebion.

Diben y ddogfen hon yw tynnu sylw at y meysydd a'r themâu risg yr ydym wedi'u nodi o'r asesiad risg a bregusrwydd sylfaenol, i'ch galluogi i nodi'r meysydd y gallech weithio gyda ni.



### Byrddau Rhaglenni

Rheoli cronfeydd ar y cyd a chytuno ar raglenni gwaith.



### Byrddau Prosiect

Gweithio fel galluogwyr rhwng Byrddau Rhaglenni a Phrosiectau Cymunedol i gytuno ar gynlluniau adnoddau a datblygu achosion busnes.



### Prosiectau Cymunedol

Gweithio gyda byrddau Prosiect i ddatblygu a gweithredu atebion i faterion llygredd a llifogydd lleol.

# Y weledigaeth

Ein gweledigaeth drwy DWMP yw sicrhau gostyngiad mewn llifogydd i gymunedau a gwella ansawdd dŵr i bobl a'r amgylchedd, wrth gadw biliau ein cwsmeriaid yn fforddiadwy.



Beddgelert, Gogledd Cymru
Ffynhonnell: pixabay.com

Rydym yn awyddus i'n cwsmeriaid allu mwynhau eu hamgylchedd naturiol.





Canŵio ar Lyn Llandegfedd, De Cymru Ffynhonnell: Dŵr Cymru

## Rydym yn awyddus i'n cwsmeriaid yn y dyfodol barhau i fwynhau'r manteision hyn am flynyddoedd i ddod.



Nofio gwyllt yn Afon Teifi, Gorllewin Cymru Ffynhonnell: wildswimming.co.uk

Maint dŵr, ansawdd dŵr a chadernid yw ein tair thema ar gyfer cynllunio rheoli gwastraff, sydd wedi eu hategu gan yr Amcanion Cynllunio Cenedlaethol a gan Gynllun Gweithredu'r DWMP, a nodir yn ein Dogfen Cyd-destun Strategol. Mae copi o'r Ddogfen Cyd-destun Strategol ar gael ar ein gwefan.




### Maint y Dŵr

Lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau



### Ansawdd Dŵr

Rheoli ansawdd ein dŵr, ein gwasanaethau a'r amgylchedd



### Cadernid

Addasrwydd i newid wrth gynnal gwasanaethau hanfodol a diogelu'r amgylchedd


# Ble rydym ni eisiau gweithio gyda chi

**Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y rhagolwg o risg a'r meysydd lle rydym ni eisiau gweithio gyda chi.**

## Rhagolwg Risg - 2025

Rydym wedi cynnal asesiadau risg ar gyfer llifogydd a llygredd ac mae'r map hwn yn dangos y rhagolwg risg ar gyfer 2025.

- Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd
- Ardaloedd sydd mewn perygl o lygredd
- Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd a llygredd



Hoffem glywed gan unrhyw gymuned neu randdeiliad a hoffai weithio gyda ni i ddatrys llifogydd, llygredd neu'r ddau yn yr ardaloedd sydd wedi'u hamlygu.

# Manteision cydweithio

Trwy gydweithio, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar leihau llygredd a llifogydd i eiddo, wrth gynnal datblygu cynaliadwy. Byddwn yn nodi ac yn cynllunio cyfres o welliannau mewn lleoliadau â blaenoriaeth. Bydd hyn yn darparu map ffordd ar gyfer gweithredu camau yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn.

Mae manteision ychwanegol y dull hwn yn cynnwys:

- Darparu eglurder yn yr hyn sydd ei angen yn awr ac ar gyfer y dyfodol
- Manteisio ar arbenigedd ac adnoddau cyfunol
- Darparu llwybr i wneud ceisiadau am gyllid i gefnogi prosiectau am genedlaethau i ddod
- Darparu dull o gynnal deialog agored rhwng sefydliadau a'n cymunedau
- Cynnwys gwybodaeth leol cynllunio tymor hir.
- Rhoi sicrwydd i gymunedau y mae ansawdd dŵr a llifogydd yn effeithio arnyn nhw.

# Y camau nesaf

Os ydych yn gallu cefnogi'r gwaith o ddatblygu cydweithio yn eich ardal ac yn gallu ymrwymo rhywfaint o amser i'r cyfle hwn, cysylltwch â ni.

Cysylltwch â ni yn DWMP@dwrcymru.com a byddwn yn trefnu cyfarfod â chi.

Dŵr Cymru
Welsh Water

DWMP@dwrcymru.com
www.dwrcymru.com/dwmp